# Llwybr Arfordir Cymru – Ceredigion

## Arolwg Busnes 2024

**Julie Hollingsworth, Cyfarwyddwr Cyswllt**
jhollingsworth@djsresearch.com

**Clare Rapkins, Uwch-reolwr Ymchwil**
crapkins@djsresearch.com

**Emily Ward, Uwch-swyddog Gweithredol Ymchwil**
eward@djsresearch.com

Llwybr Arfordir Cymru Wales Coast Path

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

djs research

# Cynnwys


3 Cefndir a methodoleg

6 Proffiliau busnes

11 Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau

16 Ansawdd y llwybr

19 Hyrwyddo'r llwybr

28 Casgliadau ac argymhellion

# Llwybr Arfordir Cymru - Ceredigion

## Cefndir a Methodoleg



# Cefndir a Methodoleg

## Prif nod yr arolwg hwn yw gwella dealltwriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill o'r cymorth sydd ei angen ar fusnesau i fanteisio i'r eithaf ar eu lleoliad a'r cyfleoedd a gyflwynir gan lwybrau pellter hir Cymru, sef Llwybr Arfordir Cymru (gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro), Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a Llwybr Cenedlaethol Glyndŵr.

Yn gyffredinol, mae'r amcanion yn ymwneud â'r holl lwybrau pellter hir; fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar fudd **Llwybr Arfordir Cymru yng Ngheredigion**.

## Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys:

- Nodi'r mathau o fusnesau sy'n gweithredu ar y llwybrau neu'n agos atynt.
- Deall y gwasanaethau a ddarperir gan fusnesau sy'n agos at y llwybrau.
- Asesu'r buddion y mae'r llwybrau'n eu rhoi i fusnesau, gan gwmpasu incwm uniongyrchol ac anuniongyrchol a gynhyrchir dros wahanol dymhorau.
- Gwerthuso lefel y cydweithio ymhlith busnesau ar hyd y llwybrau.
- Gofyn am farn ar faterion megis argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus, gwelededd, hygyrchedd, arwyddion, marchnata, cefnogaeth, ac unrhyw heriau neu rwystrau sy'n gysylltiedig â'r llwybrau.
- Archwilio'r diddordeb a'r gefnogaeth ar gyfer sefydlu porth busnes pwrpasol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru.
- Hwyluso cymhariaeth ag arolygon blaenorol a gynhaliwyd ar yr un pwnc lle bo hynny'n bosibl neu'n berthnasol.




Cynhaliwyd yr arolwg hwn drwy gyfweliadau ffôn â chymorth cyfrifiadur (CATI). Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn gynhwysol ac yn hygyrch, darparwyd opsiwn ar-lein hefyd.

I fod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, roedd yn rhaid i fusnesau naill ai ystyried eu hunain yn agos at un o'r llwybrau pellter hir (o fewn pellter cerdded neu daith car fer) neu ddatgan eu manteision busnes o un o'r llwybrau mewn rhyw ffordd.

Ar y cyfan, roedd ychydig dros fil o fusnesau yn rhan o'r arolwg. Roedd **70** ohonynt yng Ngheredigion ac fe'u neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru, ar y sail mai dyna oedd eu llwybr agosaf neu'r un y cawsant y budd mwyaf ohono. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y busnesau hyn yn unig.

I gael manylion llawn y fethodoleg, gweler Arolwg Busnes Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol 2024 (adroddiad cyffredinol).

# Canllaw i'r adroddiad hwn

## Talgrynnu

Cyflwynir y canlyniadau yn yr adroddiad hwn fel rhifau cyfan er hwylustod darllen a dehongli. Talgrynnir ar gam olaf y cyfrifiad er mwyn sicrhau'r cywirdeb mwyaf. Felly, lle cyflwynir canlyniadau fel % yn gadarnhaol, % yn niwtral neu % yn negyddol, efallai y bydd achosion lle nad yw’r canlyniadau’n dod i gyfanswm o 100%. Ni ddylai'r gwahaniaethau byth amrywio o +/- 1% pwynt.

## Meintiau sylfaen

Sylwch, y meintiau sylfaen sydd wedi'u cynnwys yw cyfanswm y bobl a ymatebodd i gwestiwn penodol. Gan nad yw pawb wedi ateb pob cwestiwn, gall y sylfaen ar gyfer cwestiynau unigol fod yn is na chyfanswm yr ymatebwyr a ymatebodd i'r arolwg, sydd wedi'u lleoli yng Ngheredigion ac a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (70).

## Diffiniad o lwybr ‘a neilltuwyd’

Ar ôl ateb cyfres o gwestiynau sgrinio i bennu agosatrwydd (S02a, S02b) a phwysigrwydd llwybrau i fusnesau unigol (S03, C01 a C02), neilltuwyd llwybr i fusnesau a gofynnwyd iddynt ymateb i weddill cwestiynau’r arolwg yn seiliedig ar eu llwybr ‘penodedig’. Mewn achosion lle'r oedd busnesau wedi'u lleoli'n agos at neu'n elwa o fwy nag un llwybr, cawsant eu neilltuo i'r un a) a oedd yn cynhyrchu'r gyfran uchaf o werthiannau/trosiant neu b) y maent yn fwyaf dibynnol arno ar gyfer eu busnes.

## Cymhariaeth â gwerthoedd ‘cyfanswm’

Yn yr adroddiad hwn, mae canlyniadau’r rhai sydd wedi’u lleoli yng Ngheredigion ac sydd wedi’u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru yn cael eu cymharu â’r ffigurau cyfartalog o’r sampl gyfan o fusnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru, waeth beth fo lleoliad y busnes. Mae’r cyfartaledd cyfun wedi’i labelu fel “Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)” yn y siartiau cymharu. Lle mae ffigurau’n sylweddol uwch na’r cyfanswm ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol, bydd saeth liw yn y siart yn dangos a yw hyn yn sylweddol uwch neu is. Os nad oes saeth, nid yw'r ffigur hwn yn sylweddol wahanol i'r cyfanswm a dylid ei drin yn ofalus. Lle bernir bod gwahaniaethau mawr yn ddi-nod, mae'n debygol bod hyn oherwydd maint sylfaen gwahanol y ddwy sampl.

**Sylwch – mae Llwybr Arfordir Sir Benfro wedi’i ddosbarthu fel Llwybr Cenedlaethol ond mae hefyd yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru. Drwy gydol yr adroddiad hwn, wrth gyfeirio at Lwybr Arfordir Cymru (cyfanswm), rydym yn cyfeirio at Lwybr Arfordir Cymru gan gynnwys Llwybr Arfordir Sir Benfro.**


# Llwybr Arfordir Cymru - Ceredigion
Proffiliau Busnes




# Proffiliau busnes (I)

Roedd y 70 o fusnesau yn rhanbarth Ceredigion yn cynrychioli ystod o sectorau, gyda 48% yn y sectorau llety neu fanwerthu. Mae 16% arall yn gweithio yn y sector lletygarwch ac arlwyo. Yn gyffredinol, mae 80% o fusnesau yn y sector preifat.

## Sector




## Math o fusnes





Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664). Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ceredigion (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70). **C05B.** Pa un o'r canlynol sy'n crynhoi gweithgareddau eich prif fusnes orau? **C01.** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch busnes orau?


# Proffiliau Busnes (II)

Mae busnesau yng Ngheredigion ychydig yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o gyflogi llai na 10 o bobl (63% o'i gymharu â 58% ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru, yn genedlaethol). Er bod 20% yn dweud nad ydyn nhw'n gwybod beth yw eu trosiant cyfartalog, mae 52% o fusnesau Ceredigion yn dod â £300,000 neu lai i mewn.

## Maint y busnes




## Trosiant





**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664). Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ceredigion (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70). **C07A/B.** Gan gynnwys eich hun, faint o staff llawn amser a rhan amser parhaol a gyflogir gan eich busnes? **C02.** Beth oedd trosiant bras eich busnes (neu werth gwerthiant) yn eich blwyddyn ariannol ddiwethaf?


# Proffiliau busnes (III)

Mae 83% o fusnesau Ceredigion yn gweithredu o un lleoliad yng Nghymru. Mae gan 13% fwy nag un adeilad ledled Cymru, ac mae gan 4% fwy nag un eiddo, y tu mewn a'r tu allan i Gymru. Mae busnesau yn yr ardal hon hefyd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (cyfanswm Llwybr Arfordir Cymru) o fod wedi'i hen sefydlu, gydag 81% wedi bod yn gweithredu ers o leiaf 10 mlynedd (o'i gymharu â 70% ar gyfer yr holl fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, yn genedlaethol).

## Nifer y safleoedd




## Daliadaeth y busnes





**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664). ). Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ceredigion (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70) **Co6.** A yw eich busnes yn gweithredu o un lleoliad neu eiddo, neu leoliadau neu adeiladau lluosog? **Co4.** Oddeutu pa mor hir mae eich busnes wedi bod yn gweithredu o'r lleoliad hwn?


# Proffiliau busnes (IV)

Mae 87% o fusnesau Ceredigion ar agor trwy gydol y flwyddyn. Er bod 21% yn nodi bod busnes yn parhau'n sefydlog drwy gydol y flwyddyn, mae 49% yn nodi bod busnes ar ei uchaf ym misoedd yr haf.

**Busnes ar agor drwy'r flwyddyn**




**Tymor brig**




**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664). Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Ceredigion (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70) **C09a.** ydy'ch busnes ar agor drwy'r flwyddyn? **C09B**. A oes yna dymor neu amser penodol o'r flwyddyn pryd y mae'r defnydd o'ch cynhyrchion neu wasanaethau ar ei uchaf o ganlyniad i Lwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol?

# **Llwybr Arfordir Cymru - Ceredigion**
## Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau




Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

# Proffiliau busnes – yn benodol i'r llwybr

Mae 49% o'r busnesau yma yn datgan bod y llwybr o leiaf yn weddol bwysig i lwyddiant eu busnes, o'i gymharu â 52% o fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, yn genedlaethol.

**Pwysigrwydd y llwybr i lwyddiant busnesau**





**Sylfaen:** Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664) **S03**. A yw eich busnes yn gweithgynhyrchu, gwerthu neu gyflenwi unrhyw gynhyrchion neu wasanaethau i bobl sy'n defnyddio neu'n ymweld ag unrhyw un o'r llwybrau cerdded, neu'n cael unrhyw fudd o fodolaeth y llwybr? **C02**. Sut byddech chi'n disgrifio pwysigrwydd y llwybr i lwyddiant eich busnes?

# Proffiliau busnes – yn benodol i'r llwybr


Yng Ngheredigion, dywed 65% o fusnesau fod defnyddwyr llwybrau yn cyfrannu at 1-10% o'u gwerthiant. Yn genedlaethol, mae'r ffigwr hwn yn 52%, er nad yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol. Yn ogystal, mae 19% o fusnesau yn adrodd bod y llwybr yn cynhyrchu rhwng 11% a 50% o'u gwerthiant.

**Canran y gwerthiannau/trosiant a gynhyrchir gan ddefnyddwyr y llwybr / bodolaeth y llwybr**




**Sylfaen:** Pob busnes sydd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru ac sy'n gweithredu yng Ngheredigion sy'n nodi bod y llwybr yn bwysig i'w busnes (46), Busnesau a neilltuwyd i Lwybr Arfordir Cymru (664) **C03.** Pa ganran o'ch gwerthiant neu drosiant a gynhyrchir gan ddefnyddwyr y llwybr neu y gellir ei phriodoli i'w fodolaeth mewn rhyw ffordd?

# Manteision bodolaeth y llwybr i fusnesau




Mae 54% o fusnesau Ceredigion yn datgan bod bodolaeth Llwybr Arfordir Cymru wedi cael rhywfaint o fudd o ran nifer y cwsmeriaid neu ymwelwyr â'u busnes. Mae hyn ychydig yn uwch na'r busnes cyfartalog ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol (48%).

Yn y cyfamser, mae 41% yn dweud bod eu trosiant neu eu gwerthiant wedi elwa o'r llwybr a'r ymwelwyr mae'n eu denu. Dywed 7% o'r garfan hon fod hyn wedi arwain at gynnydd mawr.

Mae busnesau yn yr ardal hon yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (cyfanswm Llwybr Arfordir Cymru) i adrodd eu bod yn profi buddion amrywiol, er nad yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol. Fodd bynnag, maent yn llawer llai tebygol o ddweud bod y llwybr wedi dylanwadu ar leoliad eu busnesau (3% o'i gymharu â 11% ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yn ei gyfanrwydd).


**Sylfaen:** Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Ceredigion (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (70). **Q24a.** Ydych chi'n meddwl bod presenoldeb Llwybr Arfordir Cymru wedi arwain neu wedi cyfrannu at unrhyw un o'r canlynol ar gyfer eich busnes?

Yn sylweddol uwch/is na Llwybr Arfordir Cymru (cyfanswm)

# Pwysigrwydd y llwybr i fusnesau

Mae 26% o fusnesau yng Ngheredigion yn meddwl y bydd Llwybr Arfordir Cymru yn dod yn bwysicach i'w llwyddiant yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'r gyfran fwyaf o fusnesau yn rhagweld unrhyw newid ym mhwysigrwydd y llwybr (70%). O'r 20 busnes sy'n gwneud hynny, y prif reswm yw y bydd unrhyw waith hyrwyddo ychwanegol i'r llwybr yn helpu i gynyddu twristiaeth.

**Newid ym mhwysigrwydd y llwybr i lwyddiant busnes (cyfanswm)**




**Sylfaen:** Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70) **C25a.** A ydych yn ystyried y bydd unrhyw newid yn y dyfodol ym mhwysigrwydd Llwybr Arfordir Cymru i lwyddiant eich busnes? **Sylfaen:** Lle y bydd y llwybr yn dod yn bwysicach (20)* **C25b.** Pam hynny?* Rhybudd: maint sylfaen isel


# Llwybr Arfordir Cymru - Ceredigion
## Ansawdd y llwybr



Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

# Canfyddiadau o agweddau o'r llwybr


Cyflwynwyd rhestr o chwe agwedd yn ymwneud â Llwybr Arfordir Cymru i bob busnes yng Ngheredigion a gofynnwyd iddynt raddio pob un. O'r holl agweddau a gafodd eu graddio, mae busnesau ar eu mwyaf cadarnhaol ynglŷn â chynnal a chadw dodrefn y llwybr (46% da/da iawn), ac yna arwyddion (34% da/da iawn). Fodd bynnag, dim ond 9% sy'n graddio hygyrchedd y llwybr yn gadarnhaol, gyda 37% yn ei raddio'n wael. Mae'n bwysig nodi ein bod yn gweld bod cyfran fawr o fusnesau yn dweud nad ydynt yn gwybod, sy'n awgrymu diffyg ymwybyddiaeth gan nad yw perchnogion busnes efallai wedi defnyddio'r llwybr eu hunain.




**Sylfaen:** Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ceredigion (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70) C22. Sut fyddech chi'n graddio pob un o'r agweddau canlynol? Ni ddangosir labeli data <5%

# **Canfyddiadau o agweddau o'r llwybr** – ac eithrio ymatebion 'ddim yn gwybod'

Wrth eithrio ymatebion 'ddim yn gwybod', mae'r darlun yn newid ychydig. Er mai'r sgorau ar gyfer cynnal a chadw dodrefn y llwybr yw'r mwyaf cadarnhaol o hyd (66% da/da iawn), gallwn weld bod yr ail sgôr uchaf wedi newid o arwyddion i ansawdd y wybodaeth a ddarperir, gyda 48% o'r rhai a oedd yn ymwybodol wedi sgorio hyn yn dda/da iawn. Yn anffodus, mae anfodlonrwydd â hygyrchedd yn uwch, gyda 63% yn nodi gwael / gwael iawn o gymharu â 37% gydag ymatebion 'ddim yn gwybod' wedi'u cynnwys.




**Sylfaen:** Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Ceredigion (ac sydd hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) , ac eithrio'r rhai a atebodd 'ddim yn gwybod' (mae sylfaen yn amrywio gyda'r datganiad – gweler y siart am fanylion). **C20**. Sut fyddech chi'n graddio pob un o'r agweddau canlynol? Ni ddangosir labeli data <5%


# Llwybr Arfordir Cymru - Ceredigion


## Hyrwyddo’r llwybr



# Ymwybyddiaeth Brandio

Mae gan 77% o fusnesau yn rhanbarth Ceredigion o leiaf beth ymwybyddiaeth o frandio'r llwybr, gyda 21% o fusnesau yn datgan eu bod yn 'ymwybodol iawn'. Fodd bynnag, pan ofynnwyd i'r ymatebwyr hynny ddisgrifio'r logo, dim ond 14% a ddywedodd yn gywir fod y logo yn las, dywedodd 8% ei fod yn felyn, a nododd 8% yn gywir fod y logo yn cynrychioli cragen. Yn ogystal, mae 55% yn nodi nad yw'r logo yn gofiadwy.








**Sylfaen**: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ceredigion (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70) **C10.** I ba raddau ydych chi'n ymwybodol o frandio Llwybr Arfordir Cymru neu sut mae'n cael ei hyrwyddo? **Sylfaen:** Pob ymatebydd sy'n ymwybodol o frandio Llwybr Arfordir Cymru neu sut mae'n cael ei hyrwyddo (51) C11. Sut byddech chi'n disgrifio brandio (h.y. logo) Llwybr Arfordir Cymru?


# Ymwybyddiaeth hysbysebu

Mae 39% o fusnesau yn rhanbarth Ceredigion wedi gweld peth cyhoeddusrwydd neu hysbysebu yn ymwneud â'r llwybr dros y 12 mis diwethaf. O'r 27 busnes sydd wedi gweld hysbysebion, mae'n fwyaf tebygol eu bod wedi'u gweld ar Facebook neu arwyddion (y ddau'n 27%), ac yna mewn taflen neu lyfryn, neu ar y teledu (y ddau'n 19%).

**Y % a welodd cyhoeddusrwydd/hysbysebu**




**Lle gwelwyd cyhoeddusrwydd/hysbysebu***





**Sylfaen**: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ceredigion (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70) **C12.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw gyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth am Lwybr Arfordir Cymru? **Sylfaen:** Pob ymatebydd sydd wedi gweld neu glywed cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth (27)* **C13.** A allwch ddweud wrthyf ble neu sut yr ydych wedi gweld cyhoeddusrwydd, hysbysebu neu wybodaeth ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru? Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos. *RHYBUDD – maint sylfaen isel

# Derbyn cyfathrebiadau uniongyrchol

Dim ond 9% o fusnesau yng Ngheredigion sy'n cofio iddynt gael cyfathrebiadau uniongyrchol am Lwybr Arfordir Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dylid nodi nad yw hyn yn wahanol iawn i'r cyfartaledd ar gyfer holl fusnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, yn genedlaethol (10%).

**Y % a dderbyniodd cyfathrebiadau uniongyrchol**




* Sylwer – mae'r maint sylfaen ar gyfer adrodd adborth ar y cyfathrebu uniongyrchol a dderbyniwyd yn rhy isel i'w ddadansoddi ar lefel ranbarthol.


**Sylfaen:** Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ynys Môn (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70) **C15.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych yn cofio derbyn unrhyw gyfathrebiadau uniongyrchol am Lwybr Arfordir Cymru?

# Hyrwyddo'r llwybr gan fusnesau

Mae 59% o fusnesau yn rhanbarth Ceredigion yn hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru mewn rhyw ffordd, gydag 17% yn nodi bod y llwybr yn cael ei grybwyll yn benodol yn eu deunyddiau marchnata. Mae 49% arall o fusnesau yn hyrwyddo'r llwybr ar lafar gwlad, a 7% yn sôn am lwybr, ond nid yn ôl enw.

*** Sylwch – cwestiwn amlddewis oedd hwn, sy'n golygu na fydd y cyfanswm yn 100%.**

Cyfrifwyd canran y busnesau sy'n hyrwyddo'r llwybr mewn rhyw ffordd drwy dynnu'r ganran sy'n dweud nad ydynt yn ei hyrwyddo (39%) a'r rhai nad ydynt yn gwybod (1%) o 100.





**Sylfaen:** Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ceredigion (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70) **C10.** A ydych chi'n sôn am neu'n hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru yn unrhyw un o'ch deunyddiau marchnata eich hun, er enghraifft ar eich gwefan neu sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu wrth siarad â'ch cwsmeriaid?

# Hyrwyddo'r llwybr

Er bod 14% o fusnesau yng Ngheredigion yn meddwl bod Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol, mae cyfran uwch o lawer (77%) yn credu nad yw'n cael ei hyrwyddo'n ddigonol. Mae hyn 5 pwynt % yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer busnesau ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, yn genedlaethol (72%). Fodd bynnag, oherwydd y meintiau sylfaen gwahanol, nid yw hyn yn wahaniaeth arwyddocaol.


**Yn gyffredinol, ydych chi'n meddwl bod y llwybr yn cael ei hyrwyddo…?**




**Sylfaen:** Busnesau sydd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (664), Pob busnes sydd wedi'i leoli yn rhanbarth ymwelwyr Ceredigion (a hefyd wedi'i neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru (70). **C19**. Yn gyffredinol, a ydych chi'n meddwl bod Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei hyrwyddo…?

# Annog ymweliadau

Cyflwynwyd pedwar gwelliant posibl i'r llwybr i fusnesau yng Ngheredigion a gofynnwyd iddynt ddatgan i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno a oedd eu hangen. Mae 81% o fusnesau'n cytuno bod angen mwy o wybodaeth / gwell gwybodaeth am sut i gael mynediad i'r llwybr mewn car. Dilynir hyn yn agos gan well darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus (74%). Ar nodyn mwy cadarnhaol, dim ond 47% o fusnesau sy'n meddwl bod angen gwell cysylltiadau ffordd.





**Sylfaen:** Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ceredigion (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70) **C21.** I ba raddau a ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod angen pob un o'r canlynol i annog mwy o bobl i ymweld â Llwybr Arfordir Cymru? *Sylwer – nid yw labeli data <3% yn dangos er taclusrwydd.

# Gwella mynediad

Pan ofynnwyd mewn cwestiwn agored pa welliannau sydd eu hangen i wella mynediad, prif argymhelliad busnesau ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru yng Ngheredigion yw gwella cysylltiadau trafnidiaeth, gyda 29% yn gwneud hyn yn flaenoriaeth. Mae 21% yn credu y gallai cwsmeriaid/ymwelwyr elwa o wybodaeth fwy cyffredinol am yr ardal a'r llwybr, a 19% yn credu er mwyn helpu cwsmeriaid i gael mynediad a theithio o gwmpas y llwybr, mae angen codi proffil Cymru a'r llwybr.


Yn gyffredinol, mae'r blaenoriaethu hwn yn unol â chanfyddiadau Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol.




**Sylfaen**: Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ceredigion (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70) **C22.** Pa welliannau (os o gwbl) ydych chi'n meddwl sydd eu hangen i helpu mwy o ymwelwyr i deithio o gwmpas neu i gael mynediad i'r llwybrau? *Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos.

# Gwybodaeth i gefnogi cwsmeriaid busnes / defnyddwyr llwybr

Mae'r wybodaeth a grybwyllir amlaf y mae busnesau'n credu y byddai eu cwsmeriaid yn ei chael fwyaf buddiol yn ymwneud â chylchdeithiau a theithiau cylchol (llwybrau) (20%) a gwybodaeth am gysylltiadau trafnidiaeth (17%). Yn gyffredinol, mae'r blaenoriaethu hwn yn unol â chanfyddiadau Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol.




**Sylfaen:** Holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth ymwelwyr Ceredigion (a hefyd wedi'u neilltuo i Lwybr Arfordir Cymru) (70) **C30.** Pa fath o wybodaeth ydych chi'n meddwl fyddai fwyaf defnyddiol i'ch cwsmeriaid neu ddefnyddwyr eraill Llwybr Arfordir Cymru neu'r Llwybrau Cenedlaethol? *Sylwer – ymatebion <5% heb eu dangos

# Llwybr Arfordir Cymru - Ceredigion
## Casgliadau ac argymhellion



# Casgliadau ac argymhellion

**Mae Llwybr Arfordir Cymru yn cynyddu nifer y cwsmeriaid a throsiant busnes yng Ngheredigion.**

Mae 54% o fusnesau yn adrodd cynnydd yn nifer y cwsmeriaid, ac mae 41% yn gweld effaith gadarnhaol ar drosiant oherwydd y llwybr, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru.

**Defnyddio'r budd economaidd hwn drwy gydweithio gyda busnesau lleol i gynnig cynigion arbennig ar y cyd, megis gostyngiadau neu gymhellion teyrngarwch i ymwelwyr.**

Amlygu rôl y llwybr o ran denu ymwelwyr a gwerthiant i atgyfnerthu twristiaeth a masnach leol.

**Mae ymwybyddiaeth o frandio'r llwybr yn uchel, gan gynnig sylfaen gadarn ar gyfer gwell cydnabyddiaeth.**

Mae 77% o fusnesau yn ymwybodol o'r brandio, ond mae potensial i wneud y logo a'i symbolaeth (e.e. y gragen) yn fwy cyfarwydd a chofiadwy.

**Adeiladu ar yr ymwybyddiaeth gref o frandio drwy greu ymgyrchoedd diddorol a deniadol sy'n pwysleisio'r logo a'i gyswllt gyda'r llwybr.**

Er enghraifft, lansio menter cyfryngau cymdeithasol lle mae ymwelwyr yn rhannu eu profiadau llwybr gan ddefnyddio hashnod wedi'i frandio, ynghyd â chymhellion fel nwyddau am ddim.

**Gallai gwella hygyrchedd a gwybodaeth am drafnidiaeth wella boddhad ymwelwyr.**

Er bod hygyrchedd a thrafnidiaeth gyhoeddus wedi'u graddio fel meysydd i'w gwella, mae busnesau'n gweld hwn yn gyfle allweddol i wella profiad ymwelwyr, gydag 81% yn cefnogi mwy o wybodaeth am fynediad i geir a 74% yn cefnogi gwell dewisiadau trafnidiaeth.

**Datblygu canllaw trafnidiaeth syml a hawdd ei ddefnyddio sy'n cynnwys meysydd parcio, arosfannau bysiau, a gwasanaethau gwennol ar hyd y llwybr.**

Gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr trafnidiaeth leol i gynnig cynigion tymhorol arbennig neu bris gostyngol am

# Casgliadau

**Gall llwybrau cylchol a theithlenni manwl wella profiadau ymwelwyr ymhellach.** Nododd busnesau fod galw am ragor o wybodaeth am gylchdeithiau, llwybrau cylchol, a chysylltiadau trafnidiaeth, gydag 20% yn sôn yn benodol am yr angen am fapiau llwybrau.

**Dylunio cyfres o deithiau cerdded wedi'u teilwra i wahanol ddiddordebau (ee, teithiau cerdded sy'n addas i deuluoedd, llwybrau natur, neu lwybrau treftadaeth).** Cynnwys manylion ymarferol fel pellteroedd, lefelau anhawster, a chyfleusterau cyfagos, a'u rhannu'n ddigidol ac ymhlith busnesau lleol.

**Mae busnesau yng Ngheredigion yn hyrwyddo'r llwybr yn frwd ond gellid ei wneud yn fwy amlwg. Mae 61%** o fusnesau yn hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru, gyda 24% yn ei ystyried yn elfen bwysig o'u marchnata. Fodd bynnag, mae lle i gynyddu ei amlygrwydd mewn deunyddiau marchnata.

**Darparu adnoddau marchnata parod o ansawdd uchel i fusnesau, megis lluniau proffesiynol, fideos, a chynnwys deniadol yn ymwneud â'r llwybr.** Cynnal gweithdai i helpu busnesau i gynnwys y llwybr yn eu brandio'n fwy effeithiol, gan amlygu manteision hyrwyddo cryfach i'r ddwy ochr.

# For more information


**Julie Hollingsworth, Cyfarwyddwr Cyswllt**
jhollingsworth@djsresearch.com

**Clare Rapkins, Uwch-reolwr Ymchwil**
crapkins@djsresearch.com

**Emily Ward, Uwch-swyddog Gweithredol Ymchwil**
eward@djsresearch.com

djs research

**Head office:** 3 Pavilion Lane, Strines, Stockport, Cheshire, SK6 7GH

**Leeds office:** Regus, Office 18.09, 67 Albion Street Pinnacle, 15th–18th Floors, Leeds, LS1 5AA

**+44 (0)1663 767 857 | djsresearch.co.uk**


Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path